

# Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru

## BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD GOGLEDD CYMRU



### CEFNDIR

Mae Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob rhanbarth yng Nghymru'n sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i oruchwylio Partneriaethau ac Integreiddio Gwasanaethau. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn Ebrill 2016 gan gyfarfod ar ffurf gysgodol nes i'r Bwrdd ddod yn gwbl weithredol ym Medi 2016.

Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn cyfarfod bob mis, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Iechyd, cynrychiolwyr Trydydd Sector, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn ogystal ag aelodau cyfetholedig o Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru.

Pwrpas y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

### EGWYDDORION ARWEINIOL Y BWRDD

Mae'r Bwrdd yn ymroddedig i gyflawni iechyd a lles cynaliadwy a gwell i bawb yng Ngogledd Cymru sy'n golygu:

- 1 Newid system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac yn tynnu'n effeithiol ar dystiolaeth o beth sy'n gweithio orau
- 2 Mae gofal yn cael ei gyflawni mewn ffyrdd cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau)
- 3 Mae pobl yn gallu defnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw yn annibynnol, drwy gefnogaeth amrediad o opsiynau ansawdd uchel, yn y gymuned

- 4 Ymgorffori cyd-gynhyrchu wrth wneud penderfyniadau, fel bod dinasyddion a'u cymunedau'n siapio gwasanaethau
- 5 Rydym yn cydnabod yr amrediad eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (yn cynnwys addysg, tai, lles, llai o ddigartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd)

### BLAENORIAETHAU BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Meysydd blaenoriaethau allweddol y Bwrdd:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia
- Pobl ag anabledau dysgu
- Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc
- Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig
- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabled neu afiechyd

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, mae Gogledd Cymru wedi cynnwys Iechyd Meddwl fel maes blaenoriaeth ychwanegol. Mae yna ofynion penodol hefyd mewn perthynas â chyfuno cyllidebau, gyda goruchwyliaeth y Bwrdd.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf yn ddiweddar.

Am ragor o wybodaeth cysylltw ch â:

#### Bethan Jones Edwards

Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol  
Head of Regional Collaboration  
Ffôn / Tel: 07920535974/ 01824 712432/ 01824712037  
E-bost / Email:  
bethan.m.jonesedwards@sirddinbych.gov.uk  
bethan.m.jonesedwards@denbighshire.gov.uk